

Y Cyfarfod:	<b>Y CYNGOR</b>
Dyddiad:	8 Gorffennaf 2021
Teitl:	Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau
Pwrpas yr Adroddiad:	Penodi'r Swyddog Uchod.
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Nia Jeffreys
Swyddog:	Iwan G D Evans – Swyddog Monitro

1. Dan Adran 8 o Ddeddf Cynrychioli'r Bobl 1983, mae'n ofynnol i'r Cyngor benodi Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob etholaeth, neu ran o etholaeth o fewn y Sir.
2. Dan yr un Ddeddf, y Swyddog Cofrestru Etholiadol fydd y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer etholiadau seneddol.
3. Dan Adran 35 o'r un Ddeddf mae'n ofynnol i'r Cyngor benodi un o'i swyddogion i fod yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau lleol (Sir a Chymuned).
4. Mae swyddogaethau Swyddog Canlyniadau (a rhai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol) yn gyfangwbl ar wahân i'w swyddogaeth fel swyddog o'r Cyngor ac mae'r cyfrifoldeb am gyflawni dyletswyddau cofrestru etholwyr a rhedeg etholiadau yn gyfrifoldeb personol ar yr unigolyn sy'n dal y swydd.
5. Gan fod y Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau presennol wedi ymddeol mae angen i'r Cyngor benodi olynnydd o'r diwrnod hwnnw.
6. Fel rheol (ond nid bob amser), Prif Weithredwr y Cyngor sy'n cael ei ddynodi'n Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau. Argymhellir fod y swyddogaethau yma'n cael eu rhoi i'r Prif Weithredwr, Mr Dafydd Gibbard.
7. Mae'r gwaith dydd i ddydd o gadw'r gofrestr etholiadol yn gyfrifoldeb i'r Swyddog Monitro sydd eisioes yn Ddirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol.

9. Argymhellir fod y Cyngor yn penderfynu fel a ganlyn:-

- (a) Penodi'r Prif Weithredwr i fod yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob etholaeth a rhannau o etholaeth o fewn y Sir yn unol ag Adran 8(2A) deddf Cynrychioli'r Bobl 1983.
- (b) Penodi'r Prif Weithredwr i fod yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol cynghorwyr i'r Cyngor ac ethol cynghorwyr cymuned o fewn y Sir yn unol ag Adran 35(1A) Deddf Cynrychioli'r Bobl 1983.

#### **SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

##### **Swyddog Monitro:**

Awdur yr Adroddiad

##### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae trefn grant Llywodraeth / Swyddfa'r Cabinet sy'n ariannu costau etholiadau a'r swyddog cofrestru etholiadol / swyddog canlyniadau ar wahân i gyfrifon y Cyngor.

Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol i'r Cyngor, felly does gen i ddim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.